

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Protocol ar gyfer Hysbysu Aelodau'n Gynnar i'w Galluogi i
Geisio Goddefeb i Gyfranogi yn y Pwyllgor Cynllunio**



**Mabwysiadwyd 3 Mai 2013
Adolygydd a diwygiwyd 22 Mai 2015
Dyddiad Adolygu: 2016**

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Protocol ar gyfer Hysbysu Aelodau'n Gynnar i'w Galluogi i Geisio Goddefeb i Gyfranogi yn y Pwyllgor Cynllunio

Darfu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ar 3 Mai 2013 yn dilyn yr argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau ar 12 Ebrill 2013) benderfynu y dylai swyddogion gytuno ar broses ar gyfer hysbysu Aelodau'n gynnar i'w galluogi i geisio goddefeb i gyfranogi mewn materion cynllunio. Mae'r nodyn gweithdrefnol hwn yn nodi'r mecanwaith (hyd y bo'r broses bresennol yn caniatáu) ar gyfer hysbysu Aelodau'n gynnar ynghylch ceisiadau cynllunio a allai olygu (oherwydd cyfraniad sylweddol dan gytundeb a.106 i Awdurdod Unedol cyfansoddol o fewn y Parc Cenedlaethol) y bydd angen i Aelodau o'r Awdurdod hwnnw geisio goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i gyfranogi yn yr eitem o fusnes honno.

System ar gyfer rhybuddio'n gynnar yw'r weithdrefn. Nid yw gweithrediad y weithdrefn wedi'i fwriadu i ryddhau Aelodau oddi wrth eu cyfrifoldebau unigol dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Diben y weithdrefn yw adnabod ceisiadau cynllunio perthnasol a sicrhau bod gan Aelodau ddigon o amser i wneud cais am oddefeb os byddant yn dymuno gwneud hynny.

1. Ceisiadau gan Awdurdodau Unedol Cyfansoddol (Ceisiadau lle mai'r Awdurdod Unedol cyfansoddol yw'r ymgeisydd) DS: Nid yw hyn yn cynnwys ymgynghoriadau ymylol a gyflwynir i'r Awdurdod hwn ar gyfer sylwadau gan Awdurdodau Unedol eraill/cyfansoddol).

Bydd ceisiadau cynllunio lle mai un o Awdurdodau Unedol cyfansoddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r ymgeisydd yn cael eu hamlygu ar y rhestr wythnosol o geisiadau sydd wedi dod i law.

Pan gyhoeddir y rhestr wythnosol, nid yw'n hysbys ai'r Pwyllgor CMAHT ynteu swyddogion dan bwerau a ddirprwywyd iddynt fydd yn ymdrin ag unrhyw gais penodol. Diben amlygu'r cais yw galluogi Aelodau i wneud ymholiadau pellach ac ystyried a ydynt yn dymuno gwneud cais am oddefeb er mwyn cyfranogi yn yr eitem o fusnes honno. Wrth gwrs, gall Aelodau alw materion o'r fath i mewn yn yr un ffordd ag unrhyw gais arall ar y rhestr wythnosol.

2. Ceisiadau lle mae Awdurdod Unedol wedi gofyn am gyfraniad sylweddol (mwy na £50,000.00) dan gytundeb adran 106

Ar gyfer pob cais cynllunio arall (boed yn gais llawn safonol neu'n gais amlinellol) lle gwyddys y bydd y cais yn dod gerbron y Pwyllgor CMAHT gydag argymhelliad ar gyfer cyfraniad sylweddol dan gytundeb a.106 i Awdurdod Unedol cyfansoddol, dylid dilyn y broses ganlynol:-

- Fan bellaf un diwrnod gwaith ar ôl y terfyn amser ar gyfer adroddiadau i'w rhoi ar agenda'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy ("CMAHT"), bydd y Pennaeth Rheoli Datblygu/Prif Swyddogion Cynllunio/Goruchwylydd Gwasanaethau Cynllunio yn anfon neges e-bost at y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd gan ddarparu manylion

ceisiadau cynllunio perthnasol a fydd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor CMAHT .

- Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn anfon hysbysiad trwy'r e-bost at Aelodau'r Awdurdod Unedol perthnasol gyda manylion y cais/ceisiadau sydd ar ddod ("yr E-bost Hysbysu"). Bydd copi o'r ffurflen i wneud cais am oddefeb yn cael ei hatodi wrth yr E-bost Hysbysu.
- Cyn gynted ag sy'n bosibl ond beth bynnag fan bellaf 3 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr E-bost Hysbysu mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno gwneud cais am oddefeb gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd trwy'r e-bost i gadarnhau ei fod yn bwriadu gwneud cais am oddefeb ("yr E-bost Cadarnhau").
- Ar ôl cael yr E-bost Cadarnhau bydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu bod Pwyllgor Safonau'n cael ei gynnal cyn dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor CMAHT.
- Dylai Aelodau gyflwyno ffurflen i wneud cais am oddefeb i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl ond beth bynnag dim hwyrach na 5 niwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr E-bost Cadarnhau.
- Dylai unrhyw Aelod ac arno angen cyngor mewn perthynas â'i fuddiant neu ei gais am oddefeb gysylltu â'r Swyddog Monitro.
- Yn dilyn y Pwyllgor Safonau bydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r Aelod(au) perthnasol, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor CMAHT ynghylch y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau.

Sylwadau cyffredinol

Mae nifer y ceisiadau sy'n debygol o ysgogi'r weithdrefn uchod yn fach. Rhagwelir mai dim ond un neu ddau fydd bob blwyddyn. Dim ond i enillion/mesurau lliniaru ariannol ar gyfer Awdurdod Unedol y mae'r weithdrefn yn berthnasol ac nid yw'n berthnasol i ddarparu tai fforddiadwy nac unrhyw gyfraniad ariannol i Gynghorau Cymuned neu ymgymerwr neu ddarparwr gwaith statudol arall.

Ar adegau, mae ceisiadau cynllunio sydd i fod i gael eu hystyried gan y Pwyllgor CMAHT yn cael eu tynnu'n ôl ar fyr rybudd. Wrth gwblhau'r cais am oddefeb efallai y bydd Aelodau'n dymuno ystyried gofyn am oddefeb am 12 mis i ddarparu ar gyfer sefyllfa lle caiff cais ei ystyried yn ddiweddarach.

Os yw Aelodau'n gwneud cais am oddefeb i siarad ar fater ond bod dim modd cynnull y Pwyllgor Safonau fwy na thri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle bydd y mater yn cael ei ystyried, gallant wneud cais i siarad fel aelod o'r cyhoedd dan Gynllun Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod cyn belled â'u bod yn cwrdd â'r terfyn amser, sef tri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn dal i allu rhoi eu barn er na fyddant yn gallu aros yn y cyfarfod, cymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater. Os ydynt yn cael

goddefeb wedyn i siarad gan y Pwyllgor Safonau yna gellir tynnu'r cais dan y Cynllun Siarad Cyhoeddus yn ôl unrhyw bryd hyd at ddechrau'r cyfarfod.

Mae Atodiad A yn rhoi enghraifft o'r e-bost hysbysu at Aelodau ac mae'r ffurflen i wneud cais am oddefeb gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ynghlwm.

ATODIAD A

E-bost enghreifftiol at Aelodau:-

At: Y Cynghorydd *****

Dyddiad:*****

Cais/Ceisiadau Cynllunio â'r Cyfeirnod *****.

Safle'r Cais *****.

Dan ddarpariaethau'r Protocol ar gyfer Hysbysu Aelodau'n Gynnar mae'r cais uchod yn debygol o gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy (CMaHT) ar *****.

Gall y cais arwain at gyfraniad ariannol sylweddol at yr awdurdod lleol yr ydych chi'n Gynghorydd Sir ynddo. O ganlyniad, dylech ystyried a oes gennych fuddiant y mae angen ei ddatgan dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Os ydych yn ystyried bod gennych fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu a'ch bod yn dymuno cyfranogi yn y broses o ystyried y cais, bydd angen ichi gyflwyno cais i'r Pwyllgor Safonau am oddefeb.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am oddefeb hysbyswch y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd trwy'r e-bost **fan bellaf 3 diwrnod gwaith** ar ôl dyddiad y neges e-bost hon. Wedyn mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen i wneud cais am oddefeb a'i dychwelyd at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd **fan bellaf 5 niwrnod gwaith** ar ôl dyddiad y neges e-bost hon.

Fe'ch cynghorir hefyd, os yw'r penderfyniad ynghylch goddefeb yn annhebygol o gael ei wneud gan y Pwyllgor Safonau fwy na thri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod y mae'r cais hwn yn cael ei ystyried ynddo, y gallwch wneud cais i siarad dan Gynllun Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod fel aelod o'r cyhoedd, er na fyddwch yn gallu aros yn y cyfarfod wedi ichi siarad, na chymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais. Os byddwch yn cael goddefeb i siarad yn ddiweddarach gallwch dynnu eich cais i siarad dan y Cynllun Siarad Cyhoeddus yn ôl ar unrhyw adeg cyn dechrau'r cyfarfod.

Gellir cael manylion pellach mewn perthynas â'r cais ar wefan yr Awdurdod neu drwy gysylltu â'r Goruchwylydd Gwasanaethau Cynllunio ar 01874 620431.

Os oes arnoch angen cyngor ynghylch datganiadau o fuddiant neu ynghylch gwneud cais am oddefeb cysylltwch â'r Swyddog Monitro.

Yn gywir,

Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

FFURFLEN I WNEUD CAIS AM ODDEFEB YNGHLWM.